



# Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (18) M14

## COFNODION O GYFARFOD BWRDD DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU

7 Mehefin 2018

### Eitem 1: Croeso, cyflwyniadau.

- Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

### Eitem 2: Cynllun Gweithredu 2

Adolygiad o Gynllun Gweithredu Bwyd a Diod Cymru 2014 – 2020 gan dynnu sylw at y ffaith bod cynnydd da yn cael ei wneud a bod y camau gweithredu ar gyfer cynyddu economi bwyd a diod yng Nghymru gan 30% ar darged. O ran y camau gweithredu eraill, roeddynt bron wedi'u cyflawni, ond nid oedd rhai camau gweithredu yn ddigon clyfar sydd wedi gwneud y gwaith o dystiolaethu cynnydd a llwyddiant yn anodd. Yn yr un modd, ni pherchnogir rhai o'r camau gweithredu gan yr Adran Bwyd felly nid ydynt yn gallu cael dylanwad uniongyrchol ar gynnydd.

Hysbysodd Llywodraeth Cymru'r grŵp bod gwaith i greu cynllun gweithredu olynol ar waith a bydd hwn yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'r bwrdd.

Mae Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ac mae'n nodi pedwar sector sylfaenol sy'n cynnwys Bwyd yn ogystal â Manwerthu, Twristiaeth a Gofal. Dylai'r ail Gynllun Gweithredu gydweddu â chynlluniau strategol ehangach.

Roedd y Bwrdd wedi gwneud a thrafod y sylwadau canlynol;

Cododd NS cyfres o gwestiynau i'w trafod gyda'r Bwrdd. Gellir gweld y wybodaeth sydd wedi'i goladu o'r drafodaeth hon yn Atodiad A.

### Eitem 3: Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol ar 8 Mawrth 2018 Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod (18) M13

- Cafodd y cofnodion eu nodi a'u cytuno.
- Cafodd y camau gweithredu oedd heb eu cymryd yn y log gweithredu eu hadolygu a'u diweddarau.
- Awgrymodd NB archwiliad pellach o farchnad Llundain er mwyn ehangu masnach busnesau bwyd/diod Cymru

### Eitem 4: Dangosfwrdd Cyflawni – Cerrig Milltir Allweddol



# Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

- Nododd y Bwrdd y ddogfen dangoswrdd cyflawni a'r cynnydd a wnaed o ran pob maes gwaith.

## **Eitem 5: Diweddariad Ffrwd Gwaith Pobl a Sgiliau**

Rhoddyd diweddariad ynghylch yr adduned sgiliau i'r Bwrdd. Yn dilyn mwy na 30 o addunedau cychwynnol yn y gynhadledd sgiliau ym mis Chwefror 2018, mae cwmnïau yn gallu addunedu ar-lein nawr. Byddant wedyn yn derbyn pecyn gwybodaeth yn awtomatig. Mae camau gweithredu dilynol ar waith gyda'r cwmnïau sydd wedi addunedu'n barod.

Hysbyswyd y bwrdd am gynnydd o ran yr her i ysgolion sy'n rhan o gynllun sgiliau'r bwrdd. Cyflawnir hyn trwy Fagloriaeth Cymru ac mae CBAC wedi cytuno y bydd hwn yn cael ei lansio o fis Medi 2018 gydag ymgeiswyr y rownd derfynol yn arddangos eu cynhyrchion yn Blas Cymru 2019. Nodwyd bod trafodaethau yn cymryd lle gyda swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn cynnwys addysg bwyd yn y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol. Bydd peth gwaith pilot yn cael ei gynnal yn ystod cynllun haf 2018 gyda chyfranogiad uwch yn 2019.

Diweddarwyd y Bwrdd ynghylch y gwaith pilot sydd ar waith fel rhan o fenter y Cymoedd Llywodraeth Cymru (Ein Cymoedd: Ein Dyfodol). Nod y gwaith hwn yw datblygu'r seilwaith a'r systemau i helpu gwella sgiliau pobl leol er mwyn eu galluogi i weithio yn y diwydiant bwyd. Awgrymodd aelodau o'r Bwrdd y byddai cydweithio gyda sefydliadau tai lleol yn gallu helpu i adnabod yr unigolion hynny sy'n ceisio gwaith yn lleol.

## **Eitem 6: Ffrydiau Gwaith Cwsmeriaid a Marchnadoedd**

Diweddarodd y Bwrdd ynghylch y digwyddiad 'Tuck-In' diweddar yng Ngogledd Cymru ym mis Mai 2018 a gafodd ei arwain gan y ffrwd gwaith. Roedd yn llwyddiant mawr. Roedd y digwyddiad yn ddosbarth meistr ar gyfer marchnata gyda ffocws cryf ar frandio. Derbyniodd busnesau a fynychodd cyngor am frandio a marchnata gan arbenigwyr o'r radd flaenaf. Cytunwyd bod fformat y digwyddiad 'Tuck-In' yn wych.

## **Eitem 7: Ffrwd Gwaith Busnes a Buddsoddi**

Adroddodd y ffrwd gwaith bod gwaith pellach wedi'i gynnal ers y gynhadledd Cyllid a Buddsoddi ym mis Tachwedd 2016 ar gyflawni ar y gweithredai a nodwyd. Mae dau weithdy ar gyfer y sawl sy'n barod am fuddsoddiad wedi'u cynnal ac mae gwaith pellach wedi'i gomisiynu i nodi'r camau nesaf.

Diweddarodd y Cadeirydd y Bwrdd ynghylch cyfarfodydd diweddar Cyngor Bwyd y DU sydd newydd gael ei ffurfio. Nodwyd bod Cymru yn arwain yn nhermau datblygu gwaith sy'n ymwneud â chynhyrchedd, sgiliau, maeth a logisteg.

Mae JF wedi ymuno ag is-grŵp y cyngor ar ddatblygu sgiliau ar gyfer y sector ac mae wedi cyflwyno strategaeth sgiliau'r bwrdd ar gyfer Cymru. Mae'r gwaith sydd wedi'i gynnal eisoes yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio i ffurfio egwyddorion arweiniol gwaith sgiliau'r cyngor.

## **Eitem 9: Dilyniant ar y Gweithdy Brexit**



# Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

Diweddarodd y Cadeirydd y Bwrdd ynghylch cynnwys a chynnydd y gweithdy Brexit gan amlinellu'r camau canlynol wnaeth godi:

1. Derbyniwyd papur byr ar allbynnau ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ar 7 Mehefin.
2. Ystyriaeth o ymgysylltiad â'r diwydiant, cronfa ddata clystyrau/cwmnïau bwyd. Trefnu dau ddiwyddiad, Gogledd a De Cymru ar gyfer tymor yr Hydref 2018.
3. "Ail-lunio" y sector bwyd yng Nghymru, edrych ar yr holl fewnbynnau a'r marchnadoedd ar gyfer allbynnau gyda newidiadau posib ar gyfer costau masnachu – tariffau a rhwystrau di-dariff.
4. Achub y blaen ar y gystadleuaeth. Dadansoddi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, meithrin arloesedd mewn cynhyrchion newydd. Tyfu sgiliau a darparu cymorth ar gyfer cwmnïau sy'n mewnforio/allforio.
- 5 Ymgysylltu â busnesau cadwyn fawr yn y DU. Sut maent yn paratoi, ydyn nhw'n pryderu ynghylch parhad cyflenwadau, ystod cynhyrchion, costau ychwanegol?
6. Darganfod beth yw "blaenoriaethau masnachu San Steffan" ac ystyried os yw'r rhain yn cyd-fynd/gwrthdaro â blaenoriaethau Cymru.
7. Deunydd pecynnu bwyd. Beth yw effeithiau posibl Brexit – risgiau a chyfleoedd?

Nododd y bwrdd canlyniadau'r gweithdy gan drafod yr angen i ddeall blaenoriaethau masnachu'r sector yn dilyn Brexit. Gwnaethant hefyd argymhell bod angen ymgymryd â gwaith pellach i yrru effeithlonrwydd o fewn y sector trwy arloesedd, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio llai/ail ddefnyddio/ailgylchu deunyddiau pecynnu a llai o ddefnydd o blastigau.

## **Eitem 10: Gwaith Zero2Five ar nodi cwmnïau arweiniol a dynamig**

Tynnodd Martin a Neil o Zero2Five a Menter a Busnes sylw at grynodeb o adroddiad Addas ar gyfer y Farchnad ynghylch busnesau Bwyd a Diod Cymru â photensial twf uchel.

Mae'r adroddiad yn gyfrinachol i Lywodraeth Cymru a bydd elfennau yn cael eu rhannu trwy'r rhwydwaith clwstwr

### **Canfyddiadau ynghylch Brexit**

- Mae canran fach yn credu bod agwedd bositif iddo.
- Dywedodd y rhan fwyaf o fusnesau na fyddai unrhyw effaith. Dywedodd 10% ei fod yn beth negyddol.
- Mae pryder uchel ynglŷn â chyllid gan y Llywodraeth, ond nid oes pryder uchel ynglŷn ag effaith reoliadol.
- Nid yw 32% yn cymryd unrhyw gamau i baratoi ar gyfer Brexit.

### **Crynodeb**



# Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

Gofyn i bartneriaid dibynadwy megis Llywodraeth Cymru / Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ddarparu mwy o wybodaeth uniongyrchol am Brexit.

AR – deall sut mae defnyddio'r gwaith. Targedu'r bobl sy'n dod i'r digwyddiadau? Ysgogi pobl sydd angen help. Cysylltu trwy glystyrau.

## **Eitem 11: Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

- Cafodd y Bwrdd ei rybuddio am y briff cysylltiadau cyhoeddus fyddai'n cael ei ddsbarthu i gaffael gwaith cyfathrebu ar ran y Bwrdd.

## **Eitem 12: Strategaeth y Diwydiant Diodydd**

Cyflwynwyd diweddariad ynghylch cynnydd y Strategaeth y Diwydiant Diodydd i'r Bwrdd gan Mark Grant o Levercliff.

Mae'r materion allweddol sydd wedi'u nodi hyd yn hyn yn dangos bod natur gymhleth y sector yn arwain at ormodedd o ofynion gwahanol o fusnes i fusnes. Roedd y themâu cyffredinol sy'n dod i'r amlwg yn dangos bod gallu busnesau i uwchraddio a chynllunio yn gyfyngedig a bod angen cymorth yn y maes hwn. Mae'r gwaith hyd yn hyn hefyd yn dangos y byddai cysylltiadau agosach ag academia o fudd. Nod y strategaeth yw datblygu nod/cenhadaeth gydlynol ar gyfer y sector a bydd y clwstwr diodydd yn cwrdd unwaith yn rhagor ym mis Medi i drafod. Bydd y strategaeth derfynol yn cael ei chyflwyno i'r bwrdd yng nghyfarfod mis Medi.

Mae NB wedi bod yn Llysgennad Gwin ar gyfer y bwrdd ond ar ôl i Buster Grant adael, cytunwyd y byddai hi'n ymgymryd â rôl cynrychiolydd diodydd y bwrdd am y tro.

## **Eitem 13: Lesley Griffiths, AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**

Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet y Bwrdd am ei holl waith hyd yn hyn ar gynyddu'r agenda bwyd a diod yng Nghymru, gan ddatgan bod yr economi bwyd a diod yn mynd o nerth i nerth. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai hi'n hoffi gweld mwy o fusnesau yng Nghymru yn cael gwybod am y Bwrdd a'i holl waith ac awgrymodd bod y Bwrdd yn cychwyn cyfrif Twitter.

Hysbysodd Ysgrifennydd y Cabinet y bwrdd am ei hymweliad gwaith diweddar i Wlad y Basg. Roedd y rhaglen glwstwr yno wedi creu argraff arni a dangosodd ei bod yn cefnogi'r datblygiad cynyddol o rwydweithiau clwstwr yng Nghymru. Hoffai Ysgrifennydd y Cabinet weld cysylltiadau mwy cadarn rhwng y bwrdd a chlystyrau yng Nghymru.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â chael cynrychiolaeth o'r sector pobi ar y Bwrdd, ond daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen hyn am y tro gan fod dynamig gwych a llawer o arbenigedd ymysg aelodau cyfredol yn barod.

## **Eitem 14: Strategaeth Arloesi**



# Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

Cyflwynwyd camau cynnar y Strategaeth Arloesi i'r Bwrdd sydd wedi'i ddatblygu gan MS. Cytunodd y bwrdd y byddai'n fuddiol cychwyn porth 'Cychwyn Arloesi', fyddai'n gallu darparu gwybodaeth er mwyn cefnogi busnesau. Cytunwyd bod angen ystyried y cysyniad ymhellach ond byddai'r Bwrdd yn ei gefnogi.

## **Eitem 15: Gwerthoedd Brand**

Rhoddodd Nick Miller gyflwyniad ynghylch ymchwil a gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn ar ddatblygu gwerthoedd brand cynaliadwy ar gyfer creu a chynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru. Y pwyntiau allweddol oedd y dylai'r cynllun arddangos gwerthoedd ehangach Cymreig, gyrru effeithlonrwydd, cynaliadwyedd, cynnydd amgylcheddol a chydblethu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cydnabuwyd bod yn rhaid i'r gwaith orwedd o fewn fframwaith polisi ehangach ar gyfer Cymru ond fod yn hyblyg fel rhan o ddolen adborth. Nodwyd bod hwn yn ddull cadwyn cyflenwi gyfan.

Roedd gan y bwrdd nifer o gwestiynau ynghylch y dyddiad lansio arfaethedig, a oedd hwn yn rhan o'r cynllun achrediad, sut fyddai'r cynllun yn gweithio ar gyfer busnes a sut yr oedd hyn yn cysylltu â'r brand 'Cymru' ehangach. Y consensws cyffredinol oedd bod llawer o waith i'w wneud eto i ddatblygu'r brand yn llawn er mwyn sicrhau ei fod yn ddull gwbl gysylltiedig sy'n gweithio er budd pawb.

Gofynnwyd i'r bwrdd i nodi strwythurau gwahanol Fyrddau Bwyd ar draws y DU. Bydd hwn yn cael ei drafod yn y dyfodol.

## **Eitem 16: Papur Strwythur Bwrdd y DU**

### **Eitem 17: Unrhyw Fater Arall**

- Trafododd SP gydweithrediad rhwng Byrddau Bwyd a Diod y DU. Gallai dull cydweithredol ar draws y diwydiant fod yn ddefnyddiol wrth wynebu Brexit. Mae'n bosibl hyrwyddo Cymru wrth weithio gyda'r Alban, Gogledd Iwerddon ac ati. Roedd y bwrdd yn cytuno ar y cyfan o ran gwaith cydweithredol ar draws y DU.
- Cododd NB yr angen am Lysgennad yn Llundain ar gyfer cynnyrch o Gymru.
- Trafododd KP hawl cynllunio ar gyfer cyfleusterau wyau; cafodd y mater ei ddatrys cyn y cyfarfod. Mae Adran Cynllunio Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn trafod pryderon ynghylch allyriadau amonia cronus o fentrau dofednod newydd lluosog yn nwyrain Cymru.